

PAMPLIN, WILLIAM (1806 - 1899), Ilysieuydd

Enw: William Pamplin
Dyddiad geni: 1806
Dyddiad marw: 1899
Priod: Margaret Pamplin (née Parry)
Priod: Caroline Pamplin (née Hunneman)
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: Ilysieuydd
Maes gweithgaredd: Meddygaeth; Natur ac Amaethyddiaeth; Gwyddoniaeth a Mathemateg
Awdur: Evan Roberts

Ganwyd yn Chelsea, 5 Awst 1806. Cyhoeddodd yn 1827 restr o blanhigion prin Battersea a Clapham; sgrifennodd lawer i'r *Magazine of Natural History*; ymgymter yn 1855 â golygyddiaeth *The Phytologist*, a phriododd â Caroline Hunneman, merch perchennog y cylchgrawn. Ar amryw ymwelliadau â Gogledd Cymru, ymserchodd yn Llannderfel, ac wedi ymddeol o'i fusnes fel llyfrwrthwr a chyhoeddwr yn 1864, cododd dŷ yno (Pen-y-llan), a bu fyw yno weddill ei oes, gan astudio llysieuweg ac adar y fro. Bu farw ei wraig yn 1876, ac yn 1878 priododd yntau'r eilwaith â Margaret Parry o Flaen-y-cwm, Bethel (Llannderfel). Bu farw 9 Medi 1899, a chiaddwyd yn Llannderfel.

Awdur

Evan Roberts, (1877 - 1958)

Ffynonellau

Yr Haul, Tachwedd a Rhagfyr 1939
Journal of Botany (1830–57), Rhagfyr 1899, ond nid yn Wandsworth fel y dywedir yno, y ganed ef
Cylchgrawn Cymdeithas Hanes a Chofnodiad Sir Feirionydd, I, i, 1949, a I, ii, 1950 - ond nid yn Wandsworth, fel y dywed y ddau ddiwethaf, y ganed ef
Y mae rhai o'i lawysgrifau yn N.L.W., ac eraill yng Ngholeg y Gogledd

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 59825338

Wikidata: Q20734693

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a tu hwn.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.



Roberts, E., (1953). PAMPLIN, WILLIAM (1806 - 1899), Ilysieuydd. Y Bywgraffiadur Cymreig. Adferwyd 20 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-PAMP-WIL-1806>

LLGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Nosbarwr
Llyfrgell Cymru
Sponsored by
Welsh Government